The Electoral Commission

Gwariant tybiannol: Sut mae'n gweithio i ymgeiswyr ac asiantiaid

Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth y Goruchaf Lys ystyried sut roedd y gwariant tybiannol yn gweithio i ymgeiswyr ac asiantiaid. Yn benodol, gwnaeth ystyried p'un a oedd yn ofynnol cael awdurdodiad gan yr ymgeisydd neu ei asiant ar gyfer gwariant tybiannol.

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gyfer ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol a fyddai'n hoffi cael rhagor o wybodaeth am y rheolau yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys, a gadarnhaodd y dehongliad cyfredol o sut mae'r gwariant tybiannol yn gweithio i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio ein barn am sut mae'r rheolau hyn yn gweithio. Cadarnhawyd ein barn gan y Goruchaf Lys.

Beth yw'r amgylchiadau a gafodd eu hystyried gan y llys?

Roedd y llys yn edrych ar weithrediad adran 90C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl yn nodi'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ac mae adran 90C yn ymdrin â gwariant tybiannol ar ran ymgeisydd. Mae gwariant tybiannol yn golygu nwyddau neu wasanaethau a drosglwyddir i chi, neu a ddarperir i chi fel y gallwch eu defnyddio neu fanteisio arnynt am ddim neu am bris gostyngol.

Cadarnhaodd y llys bod yn rhaid i'r gwariant tybiannol hwn gael ei ddatgan fel traul etholiad ar ffurflen yr ymgeisydd hyd yn oed os nad yw'r gwariant tybiannol wedi cael ei awdurdodi gan yr ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd na rhywun arall a awdurdodwyd gan y naill neu'r llall neu'r ddau ohonynt, *R v Mackinlay ac eraill (Ymatebwyr),* UKSC 42, 25 Gorffennaf 2018.

Fodd bynnag, roedd y llys yn glir bod yn rhaid i'r ymgeisydd neu'r asiant gymryd rhai camau cadarnhaol cyn bod angen rhoi gwybod am y gwariant.

A yw hynny'n wahanol i wariant ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau?

Ydy. Gwariant ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau yw gwariant gan rywun arall sy'n hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth ac mae wedi'i gwmpasu gan y rheolau a nodir yn adran 75 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl.

Mae'r swm y gellir ei wario ar yr 'ymgyrchu lleol' hwn heb awdurdodiad gan yr ymgeisydd na'r asiant wedi'i gyfyngu i

- £50 ynghyd â 0.5c fesul etholwr llywodraeth leol yn y ward a gofrestrwyd i bleidleisio ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad yn y ward mewn etholiadau lleol
- £700 mewn etholiadau cyffredinol seneddol.

Pryd mae rhywbeth yn wariant tybiannol?

Cadarnhaodd y llys bod gwariant tybiannol yn digwydd pan fydd tri amod yn cael eu bodloni:

- Mae'r gwariant ar draul etholiad o fewn y categorïau a restrir yn y rheolau
- Caiff y nwyddau neu wasanaethau eu trosglwyddo neu eu darparu at ddefnydd neu fudd yr ymgeisydd am ddim neu am bris gostyngol o fwy na 10 y cant
- Cânt eu defnyddio gan neu ar ran yr ymgeisydd.

Rydym yn egluro'r trydydd amod yn y daflen ffeithiau hon.

Pan fydd pob un o'r tri hyn wedi'u bodloni, bydd "swm priodol" os yw'n fwy na £50, yn cael ei drin fel traul etholiad yr aed iddi gan yr ymgeisydd. Y swm priodol yw'r swm sy'n rhesymol er mwyn adlewyrchu'r defnydd a wna'r ymgeisydd o'r eitem, fel cyfran o naill ai:

- gwerth yr eitem ar y farchnad (lle y cafodd ei darparu yn ddi-dâl), neu
- werth y pris gostyngol (lle yr eir i beth o gost yr eitem gan/ar ran yr ymgeisydd).

Mae gwariant tybiannol sydd dros £50 hefyd yn rhodd.

Beth mae 'eu defnyddio gan neu ar ran' yn ei olygu?

Mae 'eu defnyddio gan' yn golygu mwy na chael budd o rywbeth, neu hyd yn oed fod yn ymwybodol o rywbeth. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd neu'r asiant fod yn rhan weithredol o'r gweithgarwch gwario.

Mae gwariant tybiannol yn rhodd, felly, bydd yn golygu eich bod yn cael a derbyn y rhodd.

Os byddwch chi, fel ymgeisydd neu asiant, yn derbyn rhoddion a bod amodau eraill gwariant tybiannol yn cael eu bodloni, fel arfer bydd hyn yn ddigonol i ddangos eich bod yn ymwybodol o hynny ac yn ddigonol i ddangos eu bod wedi cael 'eu defnyddio' gennych.

Byddai angen nodi hyn ar eich ffurflen ymgeisydd fel gwariant tybiannol a rhodd.

Rhai enghreifftiau:

Enghraifft 1

Mae trydydd parti yn llogi bws ac yn ei baentio yn annog pleidleiswyr i bleidleisio drosoch chi yn yr etholiad sydd ar ddod.

Nid yw'r trydydd parti yn cysylltu â chi, er eich bod yn ymwybodol o'r hyn mae'n ei wneud. Nid ydych yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r trydydd parti.

Ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau yw hwn: mae eich ymgyrch yn cael budd o'r gweithgaredd ond er eich bod yn ymwybodol o'r gweithgaredd nid ydych wedi ei ddefnyddio.

Os bydd y trydydd parti wedi gwario mwy na'r terfyn cyfreithiol ar y gweithgaredd hwn heb eich awdurdodiad, gall olygu ei fod wedi cyflawni trosedd o dan adran 75 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl.

Enghraifft 2

Mae eich plaid leol yn llunio taflen yn tynnu sylw at hanes pleidleisio eich gwrthwynebydd ar faterion lleol ar gyfer yr etholiadau lleol yn y ward lle rydych yn sefyll.

Mae'n costio £100 i lunio'r daflen. Mae'r blaid yn dosbarthu'r taflenni heb yn wybod i chi ac nid ydych yn ymwybodol eu bod wedi cael eu dosbarthu tan ar ôl hynny.

Ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau yw hwn: mae eich ymgyrch yn cael budd o'r gweithgaredd ond er eich bod yn ymwybodol o'r gweithgaredd nid ydych wedi ei ddefnyddio.

Bydd hyn yn golygu bod y blaid yn ddarostyngedig i'r terfyn i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ac os bydd yn mynd heibio'r terfyn hwnnw gall olygu bod y blaid wedi cyflawni trosedd. Efallai bydd yn rhaid i'r blaid gwblhau ei ffurflen gwariant ei hun o dan adran 75. Mae'r rheolau ynglŷn â ffurflenni gwariant o dan adran 75 yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad.

Enghraifft 3

Mae eich plaid yn dweud wrthych ei bod wedi talu am daflenni yn hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth mewn etholiadau lleol yn eich ward, a'i bod yn mynd i'w dosbarthu yn awr.

Gwerth y taflenni y mae wedi talu amdanynt fydd £150. Rydych yn diolch i'r blaid am wneud hynny ac mae'r blaid yn trefnu'r dosbarthiad.

Rydych wedi cydnabod gweithgarwch y blaid yn weithredol ac unwaith y bydd y taflenni wedi'u dosbarthu byddwch wedi cael a derbyn y rhodd.

Rydych wedi gwneud mwy na chael budd o ddosbarthiad y taflenni, rydych wedi gwneud defnydd ohonynt fel rhan o'ch ymgyrch.

Mae'n rhaid nodi hyn ar eich ffurflen ymgeisydd fel rhodd gan y blaid i'ch ymgyrch ac fel gwariant tybiannol gan y blaid ar eich rhan.

Enghraifft 4

Mae eich plaid yn dweud wrthych ei bod wedi talu am daflenni yn hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth yn eich etholaeth mewn etholiad cyffredinol, a'i bod yn mynd i'w dosbarthu yn awr.

Gwerth y taflenni y mae wedi talu amdanynt fydd £1000. Rydych yn dweud wrth y blaid nad ydych am i'r taflenni gael eu dosbarthu, a'ch bod eisoes wedi cynllunio eich gwariant ar ymgyrchu.

Mae'r blaid yn dosbarthu'r taflenni beth bynnag.

Mae'r gwariant yn wariant gan y blaid wleidyddol dan y rheolau ymgyrchydd nad yw'n blaid yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl. Nid oes angen ei nodi ar eich ffurflen gwariant i ymgeiswyr fel gwariant tybiannol na rhodd.

Bydd hyn yn golygu bod y blaid yn ddarostyngedig i'r terfyn o £700, ac os bydd yn mynd heibio'r terfyn hwnnw, gall olygu ei bod wedi cyflawni trosedd. Efallai bydd yn rhaid i'r blaid gwblhau ei ffurflen gwariant ei hun o dan adran 75. Mae'r rheolau ynglŷn â ffurflenni gwariant o dan adran 75 yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad.

Enghraifft 5

Mae gan eich plaid fws sy'n cael ei ddefnyddio i gludo arweinydd y blaid o amgylch etholaethau mewn etholiad. Mae'r bws wedi'i baentio yn lliwiau'r blaid, ac mae galwad i bleidleisio dros y blaid ar ochrau'r bws.

Anfonir amserlen teithio atoch a gallwch weld ei fod yn ymweld â'ch etholaeth chi. Mae gennych ddigwyddiad wedi'i gynllunio yn yr etholaeth ar y diwrnod hwnnw eisoes. Nid ydych yn newid eich cynlluniau ar gyfer y diwrnod hwnnw ac nid ydych yn cysylltu ag unrhyw un am yr amserlen teithio.

Rydych yn ymwybodol o'r digwyddiad, ond rydych yn penderfynu peidio â mynd iddo. Nid ydych wedi cymryd rhan weithredol yn y gweithgarwch nac wedi cael rhodd o'r gweithgarwch.

Mae'r bws yn teithio o amgylch eich etholaeth ac mae arweinydd y blaid yn gwneud araith am bolisi cenedlaethol, gan annog pleidleiswyr lleol i bleidleisio dros y blaid. Nid yw hyn yn wariant ymgeisydd nac yn wariant dan y rheolau ymgyrchydd nad yw'n blaid yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl. Mae hyn am nad yw'n eich hyrwyddo fel ymgeisydd. Mae hyn yn wariant ar ran y blaid ac mae'n rhaid ei nodi ar ffurflen y blaid.

Os gwnaeth yr arweinydd araith yn cwmpasu materion lleol ac yn annog pleidleiswyr i bleidleisio drosoch chi yn benodol, byddai hyn yn wariant o dan adran 75. Gall olygu bod y blaid wedi cyflawni trosedd os yw wedi gwario mwy na £700. Gall fod angen i'r blaid gwblhau ei ffurflen gwariant ei hun o dan adran 75.

Enghraifft 6

Mae gan eich plaid fws sy'n cael ei ddefnyddio i gludo arweinydd y blaid o amgylch etholaethau mewn etholiad cyffredinol. Mae'r bws wedi'i baentio yn lliwiau'r blaid, ac mae galwad i bleidleisio dros y blaid ar ochrau'r bws.

Anfonir amserlen teithio atoch a gallwch weld ei fod yn ymweld â'ch etholaeth chi lle bydd yr arweinydd yn siarad â phleidleiswyr. Rydych wedi cael gwahoddiad i'r digwyddiad ynghyd ag ymgeiswyr o'r etholaethau cyfagos.

Rydych yn derbyn gwahoddiad i'r digwyddiad.

Mae arweinydd y blaid yn gwneud araith sy'n cwmpasu polisïau cenedlaethol ac yn sôn am bob ymgeisydd yn unigol ar ddiwedd yr araith.

Mae'n rhaid rhoi gwybod am ryw swm sy'n rhesymol i adlewyrchu eich defnydd o'r costau ar eich ffurflen gwariant i ymgeiswyr.

Sut y gallwn helpu

Gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch gysylltu â ni ar y rhif ffôn isod neu drwy e-bost ar y cyfeiriad isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar 0333 103 1928

Neu e-bostiwch:
pef@electoralcommission.org.uk

Cymru

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929

Neu e-bostiwch:
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ewch i
http://www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn:
pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bostiwch ni yn:
publications@electoralcommission.org.uk